

Sut i gynnal bore coffi

Estynnwch wahoddiad i deulu a ffrindiau a mwynhau sgwrs dros goffi a theisen, a'r cyfan tra'n cynorthwyo cleifion cancer a'u hanwyliaid.

1 Cynllunio ymlaen llaw

- Dewiswch leoliad - gall hwn fod yn eich cartef, mewn canolfan gymunedol neu yn y gweithle.
- Pennwch ddyddiad - rhowch ddigon o rybudd i bawb fel ei bod yn fwy tebygol i ddod.
- Dewch â'r gymuned ynghyd - gofynnwch a fyddai grwpiau cymunedol neu fusnesau bach yn dymuno ymuno drwy sefydlu stondinau eu hunain.
- Gosodwch bosteri yn y gymuned i hyrwyddo eich bore coffi; ar hysbysfyrdau mewn archfarchnadoedd, neu ar grwpiau Facebook cymunedol.
- Mae gennym ddeunyddiau Gofal Cancer Tenovus gwyh ar gael, fel baneri, balwŷns, crysau-t a phamffledi er mwyn tynnu sylw at eich digwyddiad. Cysylltwch â ni: fundraising@tenovuscancer.org.uk
029 2076 8863
- Nid yw pawb yn hoffi coffi, felly darparwch luniaeth amrywiol fel te, sudd, squash ac wrth gwrs theisennau a byrbrydau blasus.
- Gofynnwch i'ch archfarchnad, busnesau neu bopty lleol i gyfrannu pethau blasus er mwyn eich helpu i godi cymaint o arian â phosib.
- Gwnewch yn siŵr bod gennych wirfoddolwyr cyfeillgar wrth law i'ch helpu paratoi, gweini luniaeth, neu hyd yn oed pobi theisennau. Plŷs dilynwch canllawiau'r llywodraeth ar diogelwch bwyd, ewch at food.gov.uk i wybod mwy.
- Pan yn trefnu unrhyw ddigwyddiad codi arian, plŷs ystyriwch bwysigrwydd cynnal asesiad risg ac unrhyw yswiriant all fod ei angen arnoch. Cysylltwch â'n Tîm Codi Arian am gyngor a chefnogaeth.



2 Codi arian

- Tuniau casglu arian - cysylltwch â ni i gael tuniau casglu ar gyfer eich digwyddiad.
- Gofynnwch i bobl gyfrannu arian tuag at y theisennau a lluniaeth.
- Beth am gynnal gweithgareddau eraill ar y diwrnod - fel raffl, cwis, pleidlais am y teisen gorau, neu gynnal sêl ben-bwrdd.
- Gofynnwch i grefftwyd lleol i ddod i werthu eu heitemau, a chyfrannu canran o'r arian maen nhw'n ei wneud at yr elusen.



3 Ar ôl y digwyddiad

- Rhwch ddiolch i bawb a gynorthwyodd a rhoi gwybod iddynt faint o arian a wnaethoch!
- Danfonwch ddatganiad i'r wasg i'ch papur lleol, ynghyd ag unrhyw luniau a'r cyfanswm a godwyd.
- Ceisiwch gyfri'r arian rydych chi wedi'i godi mewn man diogel sydd ddim yn agored. Lle bo'n bosib, gwnewch yn siŵr fod yr arian yn cael ei gyfri a'i gofnodi gan ddau berson.
- Does dim ots faint o arian a godwyd, mae pob ceiniog yn bwysig! Mae sawl ffordd i'w dalu mewn:

Drwy'r post - anfonwch sic yn daliadwy i Tenovus Cancer Care, at:
Gofal Cancer Tenovus, Llawr Cyntaf, Cwrt Jones, Stryd Womanby, Caerdydd CF10 1BR

Dros y ffôn - ffoniwch 029 2076 8850 i dalu gyda cherdyn dros y ffôn.

Ar-lein - talwch drwy ein wefan ar tenovuscancercare.org.uk/donate

Cysylltwch â ni

Os bod angen unrhyw beth arnoch, rydyn ni yma i'ch helpu:

fundraising@tenovuscancercare.org.uk
029 2076 8863

Diolch yn fawr

am helpu ni i gynorthwyo pobl a'u hanwyliaid i fyw'n well â chanser.

Pob lwc a mwynhewch!



Cofrestrwyd gyda'r



FUNDRAISING
REGULATOR
RHEOLEIDDIWR
CODI ARIAN

Yn codi arian ar gyfer Gofal Cancer Tenovus
Elusen Gofrestredig Rhif 1054015



tenovus
cancer care
gofal canser

tenovuscancercare.org.uk